Prosiect Cadwyn Gyflenwi Pantri Môn

1. Cefndir

Nod y prosiect Pantri Môn yw datblygu **canolfan** fwyd a diod leol i sicrhau y gall cynhyrchwyr a phroseswyr rhanbarthol ymateb i'r cyfleoedd sy'n deillio o ddatblygiadau seilwaith mawr yng **Ngogledd Cymru**.

Bydd yna bwyslais ar gefnogi cydweithrediad llorweddol a fertigol trwy sefydlu canolfan o dan arweiniad y cynhyrchwyr. Bydd y ganolfan yn cefnogi rhwydweithiau a chlystyrau cynhyrchwyr newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes.

Bydd y prosiect yn sefydlu model peilot sy'n cael ei yrru gan **gynhyrchwyr** gyda phwyslais ar gryfhau cadwyni cyflenwi rhanbarthol a lleol sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â chreu rhai newydd lle mae bylchau yn bodoli. Mae'r cryfhau yn allweddol i ddatblygiad cynnig bwyd a diod lleol cryfach.

Bydd yna dîm bach, yn cael ei gefnogi gan grŵp llywio, i sefydlu a datblygu'r prosiect.

2. Y Tîm Prosiect

Bydd y tîm prosiect yn cynnwys Rheolwr Prosiect / Animateur, Arweinydd Cadwyn Gyflenwi a Gweinyddwr Prosiect wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru am oes y prosiect, **sef 2 flynedd**.

Rheolwr Prosiect / Animateur

Bydd y Rheolwr Prosiect / Animateur yn gyfrifol am hyrwyddo'r prosiect a sicrhau bod canlyniadau ac allbynnau yn cael eu cynnal a'u darparu. Yn ogystal, bydd y swydd yn cynnwys cysylltu â'r grŵp llywio a Llywodraeth Cymru a'u cefnogi nhw.

Arweinydd Cadwyn Gyflenwi

Mae'r swydd hon yn ganolog i'r prosiect. Bydd arweinydd y gadwyn gyflenwi yn gyfrifol am adeiladu'r berthynas rhwng Pantri Môn a'r cynhyrchwyr / cyflenwyr yn ogystal â mewnfuddsoddwyr megis Horizon.

Swyddog Gweinyddol Prosiect

Prif rôl swyddog gweinyddol y prosiect fydd cefnogi'r brif gadwyn gyflenwi.

Mon Larder Supply Chain Project

1. BACKGROUND

The Môn Larder project is aimed at developing a local food and drink **hub** to ensure regional producers and processors can respond to the opportunities arising from major infrastructure developments in **North Wales**.

There will be an emphasis on supporting horizontal and vertical collaboration via the establishment of a producer led hub. The hub will support new and existing producer networks and clusters.

The project will establish a **producer** driven pilot model with an emphasis on strengthening existing regional and local supply chains, as well as creating new ones where gaps exist. The strengthening is key to the development of a stronger local food and drink offering.

There will be a small team, supported by a steering group, to set up and take the project forward.

2. The Project Team

The project Team will consist of a Project Manager/Animateur, a Supply Chain Lead and a Project Administator funded by Welsh Government for the period of the project, **namely for 2 years.**

Project Manager/Animateur

The Project Manager/Animateur will be responsible for promotion of the project and ensuring outcomes and outputs are maintained and delivered. Additionally, the role will include liaison with and supporting the steering group and Welsh Government.

Supply Chain Lead

This role is central to the project. The supply chain lead will be responsible for building the relationships between Mon Larder and the producers/suppliers as well as inward investors such as Horizon.

Project Administative Officer

The project support officer will mainly support the supply chain lead.